**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth**
10 Gorffennaf 2019
Ystafell Gynadledda B

**Cofnodion y cyfarfod**

**Yn bresennol:**

Mark Isherwood AC (Cadeirydd)
Russell George AC
Darren Millar AC
Janette Bourne (Cruse Cymru)
David Emery (Caplan y Cynulliad)
Kim Bird (About the Funeral)
Patrick McGlinchey (Golden Charter)
Jean Letton (BASW)
Gwyneth Sweatman (Marie Curie)
Morgan Harris (Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau)
David Beamer (Ysgrifennydd)
James Tovey (Siarter SAIF)
Ahmed Alsisi (White Rose / Acceptance)
Emma Kneebone (2 Wish Upon A Star)

**Eitem 1: Ymddiheuriadau**

Janet Finch-Saunders AC
Nigel Lymn Rose (Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau)
Martin Birch (Cyngor Sir Caerdydd)
Paul Davies AC
Neil Hamilton AC
Gemma O'Driscoll (Cyn-Lywydd, SAIF)
Philip Blatchly (Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau)
Kate Edwards (Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau)
Gordon Swan (Golden Charter)
Neil McEvoy AC
Helen Mary Jones AC
Wendy Hobbs (Dreams & Wishes)
Terry Tennens (SAIF)
Jon Levett (Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau)
Carys Moseley (EBCPCW)
Tony Curtis (Dreams & Wishes)
Lorraine Barrett (Gweinydd Dyneiddiol)
Natalie McKail (Arolygydd Cyfarwyddwyr Angladdau'r Alban)

**Eitem 2: Cymeradwyo cofnodion**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Eitem 3: Diweddariad**

Dosbarthodd yr Ysgrifennydd lythyrau ymateb gan y bobl a ganlyn:

- Y Prif Grwner ynghylch gwarediadau crwneriaid.
- Vaughan Gething AC ynghylch ailddefnyddio rheoliaduron calonnau

Trafododd y Grŵp ymateb y Prif Grwner a gwnaed cais am ragor wybodaeth ynghylch cynllun gwaredu cyrff Dyffryn Tafwys sydd bellach yn cael ei ddarparu gan y gwasanaeth tân. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu llythyr i ofyn am wybodaeth ychwanegol am sut y mae'r cynllun yn gweithredu, gan gynnwys sut y diffiniwyd arfer gorau, y broses dendro, y math o gerbyd a ddefnyddir, gwiriadau ansawdd, aelodaeth o gymdeithas fasnach, y system rota, glynu wrth y cod ymarfer, yr offer a ddefnyddir, a'r ffi am bob casgliad.

**Eitem 4: Angladdau plant - cymorth ariannol**

Mynegodd Jean Letton bryderon ynghylch amrywiadau rhanbarthol mewn cymorth ariannol i angladdau plant a oedd yn bodoli cyn 2017. Roedd cefnogaeth eang i waith Carolyn Harris AS yn ei hymgyrch i wella cymorth ariannol i helpu i dalu am angladd plentyn.

Nododd y Grŵp nad oedd Llywodraeth Cymru yn talu am gost yr arch yng Nghymru, yn wahanol i Loegr. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Vaughan Gething AC i ofyn i Lywodraeth Cymru dalu am gost arch. Byddai'r llythyr hefyd yn cynnwys cwestiynau i egluro'r hyn y mae cynllun Llywodraeth Cymru yn ei gynnwys ar hyn o bryd.

**Eitem 5: Adolygiad o wasanaethau profedigaeth**

Trafododd y Grŵp y sylw a roddwyd yn y cyfryngau yn ddiweddar i'r adolygiad o wasanaethau profedigaeth sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Bwrdd Gofal Diwedd Oes, Marie Curie a Phrifysgol Caerdydd i adolygu gwasanaethau profedigaeth.

Cytunwyd y byddai'r Grŵp yn paratoi cyflwyniad ar gyfer yr adolygiad. Gofynnodd y Cadeirydd i 2 Wish Upon A Star, Marie Curie, Gofal Galar Cruse Cymru, a Hospices UK roi mewnbwn i'r Ysgrifennydd ei gynnwys yn y cyflwyniad.

Cynigiodd y Cadeirydd yn garedig i roi manylion cyswllt i Ysgrifennydd Hospices UK.

**Eitem 6: Cyllid ar gyfer gwasanaethau profedigaeth**

Dywedodd Darren Millar AC ei fod wedi cyfarfod â Gofal Galar Cruse Cymru i drafod cyllid ar gyfer gwasanaethau profedigaeth yng Nghymru. Roedd nifer o gwestiynau wedi cael eu cyflwyno i'r Cynulliad, a dosbarthwyd ymatebion i'r Grŵp, a fu wrthi'n trafod y rhain.

Cytunodd y Grŵp y byddai'r cyflwyniad a drafodwyd yn Eitem 5 yn cynnwys pwysigrwydd cyllido gwasanaethau profedigaeth.

**Eitem 7: Cronfa Gymdeithasol / Fforddiadwyedd Angladdau**

Gwnaeth y Grŵp drafod y Funeral Expense Assistance (FEA), sydd ar fin cael ei lansio yn yr Alban, a sut y byddai'r elfen wedi'i chapio o'r taliad presennol ar gyfer angladdau o'r gronfa gymdeithasol yn cynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant. Roedd hefyd yn cynnig proses ymgeisio symlach i ymgeiswyr.

Yna, cynhaliwyd trafodaeth ar yr hyn y dylid ei wneud yng ngweddill y DU, a chytunodd y Grŵp y dylid cynyddu'r elfen wedi'i chapio yn unol â chwyddiant ac y dylid cyflwyno proses ymgeisio symlach.

Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Weinidog yr Adran Gwaith a Phensiynau i rannu safbwyntiau'r Grŵp ar ôl i'r Prif Weinidog newydd gael ei benodi ym mis Gorffennaf.

**Eitem 8: Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd: Astudiaeth o'r farchnad angladdau**

Amlinellodd Morgan Harris y datblygiadau o ran yr ymchwiliad i'r farchnad angladdau sydd wrthi'n cael ei gynnal gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Trafododd y Grŵp y taliad ar gyfer angladdau o'r gronfa gymdeithasol a sut na allai cystadleuaeth ostwng y gost sydd ynghlwm wrth angladd syml i £700 yn ogystal ag alldaliadau.

Cytunodd y Grŵp y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i ofyn iddo archwilio cap y taliad ar gyfer angladdau o’r gronfa gymdeithasol a'r angen i godi hyn er mwyn talu costau angladd syml y rheini sydd ar fudd-daliadau cymwys. Byddai'r llythyr hefyd yn esbonio pam ei bod yn bwysig i drefnwyr angladdau fod yn aelod o gymdeithas fasnach sy'n glynu wrth God Ymarfer er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.

**Eitem 9: Trysorlys Ei Mawrhydi: Ymgynghoriad ynghylch cynlluniau angladd wedi’u rhagdalu**

Trafododd y Grŵp ganlyniad yr ymgynghoriad ynghylch cynlluniau angladd wedi’u rhagdalu a ddaeth i ben ym mis Awst 2018. Adolygwyd y datganiad a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar 3 Mehefin 2019 a chytunodd y Grŵp i ysgrifennu at Drysorlys EM ynglŷn â’r materion a ganlyn:

- Gofyn am eglurhad ynghylch beth fydd yn digwydd i'r rheoliad gwirfoddol presennol sy'n bodoli oherwydd y safbwyntiau a fynegwyd gan Drysorlys EM.

- A fydd awdurdodau lleol yn cael eu cynnwys pan fydd pob darparwr cynllun angladd yn dod o dan gylch gwaith yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

**Eitem 10: Unrhyw fater arall**

Rhoddodd Ahmed Alsisi wybod i’r Grŵp am ‘Gynhadledd Profedigaeth, Gofal Lliniarol a Llesiant Meddyliol Cymru 2019' ar 27 Tachwedd. Cytunwyd y byddai'r Ysgrifennydd yn rhannu’r manylion ag aelodau'r Grŵp.

Cafwyd trafodaeth ar y rôl bwysig y mae patholegwyr fforensig yn ei chyflawni a chytunodd Ahmed Alsisi i wahodd patholegydd fforensig lleol i gyfarfod nesaf y Grŵp.

Cafwyd trafodaeth ar argaeledd sganwyr MRI a chytunwyd i gynnwys y pwnc ar agenda’r cyfarfod nesaf.

Rhannodd Morgan Harris ddogfen ar yr Adolygiad Safonau ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaethau Angladdau. Trafododd y papur a nododd amserlen y Gweithgorau a dyddiad dangosol ar gyfer gwneud argymhellion i'r Llywodraeth, cyrff o fewn y diwydiant, a llunwyr polisi. Cytunodd Morgan i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod nesaf y Grŵp.

**Eitem 11: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cytunwyd i wahodd Natalie McKail, Arolygydd Cyfarwyddwyr Angladdau’r Alban, i siarad yn y cyfarfod nesaf ar 13 Tachwedd.